Rhaid i arwyddion newydd ac adnewyddedig fod yn ddwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhaid lleoli'r Gymraeg fel mae'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

Camau a gymerwyd:

- Mae arwyddion newydd ac adnewyddedig yn cydymffurfio.
- TAFLEN FFEITHIAU – Arwyddion.
- Dychwelir yr holl waith cyfieithu a dderbynnir yn y fformat cywir. Mae hyn yn arfer cyfredol.
- Cynhyrchwyd **Llawlyfr Safonau'r Gymraeg ar gyfer Arwyddion Gwaith CBSC** newydd mewn ymateb i nifer y ceisiadau am wasanaeth a gafodd eu derbyn ynghylch arwyddion gwaith nad oedd yn cydymffurfio â'r Safonau. Mae hwn wedi'i rannu â swyddogion ac isgontractwyr.

Ymwelwyr i Adeiladau – Safonau 64, 65, 65A, 67 a 68

Rhaid darparu gwasanaeth dwyieithog yn y dderbynfa yn adeiladau canlynol y Cyngor rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

- Tŷ Penallta
- Llyfrgelloedd Bargod, Rhisga, Rhymni, Coed Duon, Caerffili ac Ystrad Mynach;
- Canolfan Croeso Caerffili;
- Maenordy Llancaiach Fawr;
- Gwasanaeth Gofrestru;
- Canolfannau Hamdden Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga.

Rhaid arddangos arwyddion ar dderbynfeydd sy'n datgan y gellir defnyddio'r Gymraeg. Rhaid i staff sy'n siarad Cymraeg mewn derbynfeydd arddangos bathodyn yn datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Camau a gymerwyd:

- Ers y pandemig, mae gwasanaethau derbynfa i'r cyhoedd yn cael eu gwneud ar sail apwyntiad. Gofynnir am ddewis iaith ar y cyswllt cyntaf a bydd siaradwr Cymraeg ar gael ar gyfer yr apwyntiad os mai dyna yw'r dewis iaith.
- Cwblhawyd y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff yn y dderbynfa yn Nhŷ Penallta a'r Ganolfan Gyswllt. Mae mwy o hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ynghyd â chymorth parhaus.
- Cymraeg Gwaith - cwrs ar-lein 10-awr wedi'i gyflwyno i staff ers mis Medi 2018.
- Mae pob lleoliad a restrwyd o dan Safon 64 wedi cael y poster i'w arddangos yn y dderbynfa yn nodi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- Gwybodaeth ar gael i staff ar Borthol yr Uned Polisi Corfforaethol.
- Mae pob dysgwr a siaradwr Cymraeg wedi derbyn lanyard neu fathodyn Iaith Gwaith.
- Posteri Iaith Gwaith wedi'u hailddosbarthu i'w harddangos yn y derbynfeydd.

Dyfarnu Grantiau – Safonau 71, 72 a 72A

Rhaid i ffurflenni cais am grantiau fod yn ddwyieithog. Rhaid i unrhyw beth a gyhoeddir am grant ddatgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae hyn yn cynnwys amserlenni a bennwyd ar gyfer asesiad ac ati.

Camau a gymerwyd:

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Grantiau.
- Mae Polisi Dyfarnu Grantiau wedi'i ysgrifennu gan Grŵp Deddf a bydd yn cael ei gyflwyno'n fuan i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'w drafod a'i fabwysiadu. Unwaith y bydd cymeradwyaeth wedi'i rhoi bydd y polisi'n cael ei rannu gyda swyddogion sy'n gweinyddu grantiau.

Cyrsiau Addysg - Safonau 84 ac 86

Rhaid i gyrsiau addysg gael eu cynnig yn Gymraeg oni bai bod asesiad o dan Safon 86 wedi'i gynnal.

Camau a gymerwyd:

- Gofyn i bobl a ydynt yn dymuno derbyn y cwrs yn Gymraeg ar adeg cofrestru neu holi ac yna asesu'r galw am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Systemau Sain Gyhoeddus - Safon 87

Rhaid i bob systemau sain gyhoeddus fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Camau a gymerwyd:

- Mae'r negeseuon Prawf Larwm Tân a Munud o Ddistawrwydd yn ddwyieithog
- Gwacáu mewn Argyfwng – Saesneg yn unig.
- Gofynnwyd i Dwristiaeth edrych ar eu rhaglen ddigwyddiadau a'r angen i sicrhau bod pob cyhoeddiad cyhoeddus yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.
- Digwyddiad y Caws Mawr 2020 – Roedd y cyhoeddiadau dros systemau sain yn ddwyieithog.
- Mae negeseuon cyfarch cyhoeddus awtomataidd Llyfrgelloedd yn cydymffurfio'n llawn.

Llunio Polisi - Safonau 88, 89 a 90

Rhaid i bolisiau newydd, diwygiedig neu sydd wedi'u hadolygu ystyried yr effaith y bydd y polisi'n ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ni ddylai drin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Camau a gymerwyd:

- Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i weithredu ers 1 Ebrill 2021 ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Llunio Polisi. Mae'r asesiad effaith bellach yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion roi mwy o ystyriaeth i'r effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu cynigion a pholisiau.

Tudalennau Mewnwyd / Rhyngwyd - Safonau 122 a 124

Rhaid i hafan y fewnwyd fod yn ddwyieithog, dylai weithredu'n llawn a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i dudalennau Saesneg nodi bod tudalen Gymraeg cyfatebol ar gael, gyda dolen os yw'n berthnasol.

Camau a gymerwyd:

- Nid yw mewnwyd ddwyieithog yn arfer cyfredol. Mae tudalen benodol ar yr iaith Gymraeg ar Borthol yr Uned Polisi Corfforaethol er mwyn i staff gael mynediad at wybodaeth.
- Mae Mewnwyd newydd yn cael ei datblygu a bydd yn ystyried gofynion Safonau'r Gymraeg perthnasol.
- Mae rhai polisiau AD ar gael yn Gymraeg ar y Porthol AD.

Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Chyfathrebu â Staff – Safonau 128, 129, 130, 133, 134 a 135

Mae'n rhaid i ni ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff os yw'n cael ei ddarparu yn Saesneg ar; recriwtio, rheoli perfformiad, cwynion, disgyblu, cynefino, delio â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch, ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau, cwynion ac yn ystod gweithdrefnau disgyblu.

Rhaid rhoi cyfleoedd i staff mewn oriau gwaith i dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol ac i weithwyr sy'n rheoli eraill dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Rhaid i ni roi gwybodaeth i weithwyr newydd am yr iaith Gymraeg a thestun neu logo i weithwyr sy'n siarad Cymraeg eu defnyddio mewn llofnodion e-bost sy'n dangos eu bod yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg, boed yn rhugl neu fel dysgwr.

Rhaid i fersiwn Cymraeg o fanylion cyswllt mewn negeseuon e-bost a negeseuon Allan o'r Swyddfa fod yn Gymraeg hefyd.

Camau a gymerwyd:

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff - Adnoddau Dynol
- Os bydd unrhyw geisiadau am hyfforddiant yn cael eu derbyn byddem yn gweithio gyda chynghorau cyfagos i wneud cyrsiau'n hyfyw
- Cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg blynyddol ers 1999, sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau gwahanol i staff, sy'n cynnwys cyrsiau ar-lein, hunan-astudio, preswyl, wythnosol a chysiau Ymwybyddiaeth Iaith. Ymgymrodd 43 o ddysgwyr â hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod 2021-2022.
- Dylid cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg mewn pecynnau cynefino adnoddau dynol
- Mae'r Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori yn rhan o raglen sefydlu'r gwasanaethau cymdeithasol i ddechreuwyd newydd
- Mae TG wedi rhoi llofnod dwyieithog awtomatig i bob aelod o staff ar gyfer e-byst
- Nid yw TG wedi gallu cyn-boblogi neges e-bost dwyieithog, felly crëwyd stondinau desg i bob aelod o staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i sicrhau bod eu neges Allan o'r Swyddfa yn ddwyieithog.

Arwyddion Gweithle – Safonau 141, 142 a 143

Rhaid i arwyddion newydd ac adnewyddedig fod yn ddwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a rhaid gosod y Gymraeg fel mae'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

Camau a gymerwyd:

- Mae pob arwydd sy'n wynebu'r cyhoedd yn ddwyieithog ac os cynhyrchir rhai newydd neu adnewyddedig mae'r Gymraeg yn gyntaf

Strategaeth y Gymraeg – Safonau 145 a 146

Mae'n rhaid i ni gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5-mlynedd ar y wefan sy'n nodi sut rydym yn cynnig hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'i defnydd yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Rhaid i'r Strategaeth gynnwys –

- (a)** targed (o ran y ganran o siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd o dan sylw, a
- (b)** datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Camau a gymerwyd:

- Lanswyd y Strategaeth yn Ffliffest 2017 gan y Gweinidog dros Addysg Gydol Oes a'r Gymraeg a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.
- Bydd ail Strategaeth Pum Mlynedd y Gymraeg 2022-2027 y Cyngor yn cael ei rhoi ar waith o 1 Ebrill 2022. [Cliciwch yma i weld y ddogfen.](#)
- Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid sy'n cynnwys meysydd gwasanaeth y cyngor a sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, drwy Fforwm yr Iaith Gymraeg.
- Mae adolygiad o strategaeth 2017-2022 wedi ei gynnal ac mae'r adroddiad llawn i'w weld yn **Atodiad A**.

Cwynion – Safonau 147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2)(d)

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

Camau a gymerwyd:

- Adroddir yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Gweler **Adran 4 – Cwynion gan y Cyhoedd**.
- Ychwanegwyd categorïau cydraddoldeb a'r Gymraeg i'r system gwynion fel y gallwn fonitro os oes gan unrhyw gwynion elfen cydraddoldeb neu iaith Gymraeg. Bydd hyn yn helpu gydag adroddiadau blynyddol ac i nodi unrhyw dueddiadau.

Rhoi Cyhoeddusrwydd i Gydydffurfiaeth – Safonau 161, 167 a 163

Rhaid i ni gyhoeddi dogfen ar y wefan sy'n datgan y safonau llunio polisi y mae'n rhaid i ni gydydffurfio â hwy a sut y gwnawn hynny a rhaid i hwn fod ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Rhaid i ni gyhoeddi dogfen ar y wefan sy'n nodi'r safonau gweithredu y mae'n rhaid inni gydydffurfio â hwy a sut y gwnawn hynny a rhaid i hwn fod ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Rhaid i ni gael trefniadau ar waith i oruchwylio cydydffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, cyhoeddi'r trefniadau ar y wefan a sicrhau bod y ddogfen ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Camau a gymerwyd:

- Gweler [Adroddiad Hysbysiad Cydydffurfio CBSC 30.03.16](#) ar y wefan
- Mae'r Hysbysiad Cydydffurfio ar y wefan er mwyn caniatáu i unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd gael eu trin drwy gael mynediad at y rhyngwyd ar eu rhan

Sgiliau Iaith Staff – Safonau 151 a 170 (2) (a)

Mae'n rhaid i ni gadw cofnod (yn dilyn asesiad) o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i gynnwys y lefel sgiliau.

Camau a gymerwyd:

- Yn dilyn gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac fel yr amlinellwyd yn ein hymateb dyddiedig 22 Chwefror 2022, mae cynllun gwaith i'r dyfodol wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â nifer o faterion brys yn ymwneud â recriwtio, gan gynnwys cydydffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r camau gweithredu gofynnol wedi'u hamserlennu i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.

Hyfforddiant Iaith Gymraeg – Safonau 152, 170 (2) (b) a 170 (2) (c)

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a chanran cyfanswm nifer y staff a fynychodd gwrs Cymraeg. Gweler **Adran 6** o'r adroddiad hwn.

Recriwtio – Safonau 154, 170 (2) (ch) a 154

Rhaid cadw cofnod o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu]
- (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

Camau a gymerwyd:

- Sgiliau Iaith Staff, Darpariaeth Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Recriwtio: Caiff y rhain eu hadrodd arnynt yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor erbyn y 30 Mehefin bob blwyddyn. Gwelwch **Adran 5, 6 a 7** am fanylion.

2. Hyrwyddo

Dydd Gŵyl Dewi

Gwnaethom nodi Dydd Gŵyl Dewi eleni gyda'r postïadau cyfryngau cymdeithasol canlynol:

<https://twitter.com/caerphillycbc/status/1498598950546415616?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

<https://twitter.com/caerphillycbc/status/1498704690405597185?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

Ymgyrch Gwnewch y Pethau Bychain

Ar Ddydd Gŵyl Dewi fe wnaethom hefyd lansio ymgyrch lle bydd cydweithwyr, drwy ymgyrch ymgysylltu blwyddyn o hyd, yn cael eu hannog i 'gwneud y pethau bychain' er mwyn hybu eu defnydd a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun y gweithle.



Bydd yr ymgyrch hefyd yn defnyddio diwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb ac ymgynghori drwy gydol y flwyddyn, gan annog cydweithwyr i ystyried sut y gallent 'gwneud y pethau bychain' yn y meysydd pwysig hyn hefyd.

Y neges allweddol drwyddi draw yw bod llawer o newidiadau bach y gall pob un ohonom eu gwneud yn ein bywydau bob dydd sydd, gyda'n gilydd, yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.

Bydd ein hymgyrch '[Gwnewch y Pethau Bychain](#)' yn rhannu syniadau, awgrymiadau ac yn annog cydweithwyr i wneud addewid am newidiadau bach y gallwn ni i gyd eu gwneud i ddatblygu Tîm Caerffili sydd â'r Gymraeg, cydraddoldeb ac ymgysylltu hyd yn oed ymhellach wrth ei galon.

Dyma fideo gan ein Prif Weithredwr Christina Harrhy yn lansio'r ymgyrch:

<https://fb.watch/cwMq8Zi8Rh/>

Diwrnod Shwmae

Anogwyd staff ac aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio geiriau Cymraeg a rhoddwyd geirfa iddynt i'w defnyddio mewn gwahanol leoliadau. Cawsant eu hannog hefyd i gymryd rhan mewn cwis Diwrnod Shwmae a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Say it in Cymraeg
mewn cyfarfod | in a meeting

Hello	Shwmae / Su'mae	Shoo-my / Sin-dye
Welcome	Croeso	Kroee-saw
Thank you	Diolch	Dee-olch (ch as in loch)
Goodbye	Hayl fawr	Hayl vaar
Good morning!	Bore dat	Bah-reh dat
Good afternoon!	Prynhawn dat	Pri'n-hound ah!
Turn on your sound	Tro'n sain ymlaen	Trowr sah-eeen unlloean
Turn on your video	Tro'n fideo ymlaen	Trowr video unlloean
You're on mute	Ti ar miwt	Tee arh mute
She's on mute	Mae hi ar miwt	Maae hee arh mute
He's on mute	Mae e' ar miwt	Maae eh arh mute
I agree	Dwi'n cytuno	Doowen cut-eeenoh
I disagree	Dwi ddim yn cytuno	Doowee thih uh'n cut-eeenoh

  

Say it in Cymraeg
yn y swyddfa | in the office

Hello	Shwmae / Su'mae	Shoo-my / Sin-dye
Please	Os gwelwch yn dda	Oss guall-oo-cha'n tha
Thank you	Diolch	Dee-olch (ch as in loch)
Goodbye	Hayl fawr	Hayl vaar
Good morning	Bore da	Bore-eh dah
Good afternoon	Prynhawn da	Pri'n-hound ah
See you tomorrow!	Welw di 'fory!	Whele-eye dee voree
Email	E-bost	Eh-bohst
Phone	Ffôn	Fhoh-n
Printer	Argraffydd	Are-graph-ih (th as in the)
Paper	Papur	Pap-ir
File	Ffeil	Fai
Meeting	Cyfarfod	Cow-are-vod

  

CWIS SHWMAE SU'MAE QUIZ
CYMERWCH RAN YN EIN CWIS CYMRAEG
TAKE PART IN OUR WELSH QUIZ

 



15/10/21 - 11am
ABB.WelshLanguageUnit@wales.nhs.uk

  

Bu'r Gwasanaeth Llyfrgell hefyd yn hyrwyddo Diwrnod Shwmae gan bostio fideo ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol - Sut ydych chi'n '#Shwmae'? | Sut wyt ti'n '#Shwmae'? - <https://fb.watch/cwS5NZkDkW/>

Mae Gen i Hawl (Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg)

Ar 7 Rhagfyr buom yn dathlu Mae Gen i Hawl (Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg). Eto roedd presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad a hawliau siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.

[Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - dathlu'r 'newid byd' ym mhrofiadau siaradwyr Cymraeg](#)

<https://twitter.com/caerphillycbc/status/1468263886038175744?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

<https://twitter.com/caerphillycbc/status/1468262385412710411?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

Fel rhan o'n hyrwyddiad i godi ymwybyddiaeth o hawliau'r Gymraeg buom yn cyfweld ag un o'n hathrawon ysgol sydd newydd gwblhau'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.

Mae'r Cynllun yn cynnig cyfnodau o astudio dwys i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth, i ymarferwyr addysgu ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg a magu hyder mewn methodoleg addysgu ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Darperir rhaglen o gyrsiau ledled Cymru o dan gontract gyda Llywodraeth Cymru.

I weld y cyfweiliad gyda Miss Jones, Ysgol Gynradd Pontllan-fraith cliciwch ar y ddolen:

<https://twitter.com/caerphillycbc/status/1468173694811971585?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

Hyrwyddo mewnol

Wrth i ni agosáu at y tymor gwyliau ym mis Gorffennaf 2021, atgoffwyd staff o'r angen i ddefnyddio'r negeseuon Allan o'r Swyddfa ar gyfrifon e-bost. Mae'r nodyn atgoffa yn amlygu'r angen i sicrhau bod negeseuon yn ddwyieithog ac yn cynnwys y fersiwn electronig o'r stondinau desg a ddatblygwyd pan weithredwyd y Safonau.

Safonau'r Iaith Gymraeg
Welsh Language Standards

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ers iddynt ddod i rym ar 30 Mawrth 2016. Mae Safonau'r Gymraeg yn effeithio ar bob aelod o staff a phob gwasanaeth rydym yn darparu i'r cyhoedd.

Ydych chi'n gwbyod ei fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i chi wneud y canlynol yn Gymraeg ac yn Saesneg?

- Cyfarchion ffôn
- Negeseuon allan o'r swyddfa
- Negeseuon peiriant ateb
- Negeseuon ffôn awtomataidd
- Cyfathrebiaeth a deunydd ysgrifenedig

Bore da, Good Morning Leisure Services
Prynhawn da, Good Afternoon Ioan Richards

Am gymorth a chynghor, cysylltwch â Thim Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar WWW.Cymraeg
For help and advice, please contact the Equalities and Welsh Language Team at WWW.Cymraeg

Negeseuon Allan o'r Swyddfa
Os ydych yn mynd i fod i ffwrdd o'ch desg am unrhyw gyfnod o amser, rhaid i chi sicrhau bod eich neges allan o'r swyddfa ymlaen a'i bod yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Er enghraifft:
Dydwr i ddim ar gael tan (XX/XX/XX).
Os bydd eich ymholiad yn un brys cysylltwch â (ychwanegwch enw, cyfeiriad ebost a rhif ffôn swyddog arall).
Os ydych yn defnyddio'r fformat hyn ar gyfer y dyddiad dim ond y rhifau bydd rhaid newid bob tro rydych am ddefnyddio eich Neges Allan o'r Swyddfa.

Out of Office Message
If you are going to be away from your desk for any length of time you must ensure that your out of office message is on and that it is in Welsh and English.
For example:
I am currently unavailable until (XX/XX/XX).
If your communication is urgent please contact (insert another officer's name, email address and telephone number).
If you use this date format then you only have to change the numbers when you need to use your Out of Office Message.

Negeseuon Peiriant Ateb
Dyma beiriant ateb (enw'r tim). Does neb yma i gymryd eich galwad ar hyn o bryd. Gadewch eich enw, rhif ffôn a neges fer, a bydd rhywun yn cysylltu â chi. Diolch yn fawr.
Answer Phone Messages
This is the voicemail for (team name). There is no-one here to take your call at the moment. Please leave your name, number and a short message, and someone will get back to you. Thank you.

Neges Ffôn Awtomataidd
Mae'n rhaid i bob neges ffôn awtomataidd fod yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Mae'r Tim Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn gallu helpu i arall-eirio a recordio negeseuon.
Automated Phone Messages
All automated phone messages must be in Welsh and English.
The Equalities and Welsh Language Team can help to re-word and record messages.

Cyfathrebiaeth a Deunydd Ysgrifenedig
Rhaid i bob llythyr cyffredinol i fwy nag un person a llythyrau pan nad yw dewis iaith yn hysbys fod yn ddwyieithog.
Rhaid i benawdau llythyrau ddweud na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

Correspondence and Written Material
• All general letters to the public, letters to individuals where language choice is not known and all promotional material must be bilingual.
• Letterheads must say that corresponding in Welsh will not lead to any delay.

Datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddatblygu Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd sy'n nodi sut y mae'n bwriadu hybu'r defnydd o'r Gymraeg, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol.

Rhaid i'r strategaeth gynnwys targed (yn nhermau canrannau) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd. Yn ogystal, rhaid i'r strategaeth gynnwys datganiad yn nodi sut y bydd y targed yn cael ei gyrraedd. Rhaid adolygu ac adnewyddu'r strategaeth ar ddiwedd pob cyfnod o 5 mlynedd (Safon 145).

Wrth ddatblygu'r strategaeth newydd, cynhaliodd y cyngor amrywiaeth o weithgareddau casglu tystiolaeth ac ymgysylltu cyn-ymgyngori i ddatblygu set ddiwygiedig o gamau gweithredu ar gyfer Strategaeth 5 mlynedd y Gymraeg 2022-2027 drafft. Bydd y camau gweithredu hyn yn ein galluogi i gynllunio sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith yn lleol i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

- Adolygiad o ofynion deddfwriaethol
- Adolygiad o adroddiadau a chanllawiau allanol, gan gynnwys '**Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026**' Llywodraeth Cymru, a chanllaw Comisiynydd y Gymraeg '**Safonau ar gyfer hybu'r Gymraeg**'.
- Adolygiad o Strategaeth Pum Mlynedd Iaith Gymraeg 2017-2022 cyfredol y Cyngor
- Dadansoddiad o setiau data lleol a chenedlaethol

- Ymgysylltu â rheolwyr darparu gwasanaethau o fewn y Cyngor
- Ymgysylltu â Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg

Buom yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatblygu strategaeth sy'n adeiladu ar ein llwyddiannau yn y gorffennol, yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y fwrdeistref sirol, yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ac yn bwysicaf oll, yn ystyrlon, yn briodol ac yn gyraeddadwy i bawb dan sylw. Gellir gweld rhestr lawn o'r partneriaid yn y strategaeth.

Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cabinet ym mis Mawrth 2022 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan ar 31 Mawrth 2022. I weld y strategaeth a'r atodiadau ategol cliciwch ar y ddolen ganlynol: [Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg 2022-2027](#).

Ar ddiwedd pob cyfnod 5 mlynedd, rhaid i'r cyngor asesu i ba raddau y mae'r strategaeth wedi'i dilyn a'r targed wedi'i gyrraedd. Mae'n rhaid i'r asesiad, y mae'n rhaid ei gyhoeddi, gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'r rhestr o weithgareddau sydd wedi'u cyflawni i gwrdd ag amcanion y strategaeth (Safon 146). Mae cynnydd yn erbyn Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg 2017-2022 i'w weld yn yr adroddiad yn **Atodiad 1**.

Fideo Gyrfa Cymru a Gyrfa Cymru – Byd Gwaith gydag YG Cwm Rhymni

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i geisio meithrin cysylltiadau gyda'n hysgolion uwchradd, gan godi ymwybyddiaeth o yrfaedd gyda'r cyngor ond yn arbennig pa mor bwysig yw cael sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Recordiodd yr Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Gymraeg ddau fideo (fersiynau Cymraeg a Saesneg) i'w defnyddio yn ein hysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod clo.

<https://twitter.com/cwcardiffbea3/status/1397210046036054020?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

Ym mis Tachwedd 2021, gwahoddwyd yr Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Gymraeg i fynychu 'Diwrnod Byd Gwaith' yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd y diwrnod yn cynnwys rhoi nifer o gyflwyniadau yn ystod y diwrnod ysgol i fyfyrwyr Blwyddyn 11, gan hyrwyddo cyfleoedd gyrfa gyda'r cyngor. Roedd y cyflwyniadau yn canolbwyntio'n benodol ar ba mor bwysig a gwerthfawr yw meddu ar sgiliau Cymraeg a'u defnyddio yn y gweithle. Anogwyd myfyrwyr i wisgo bathodynau oren 'iaith gwaith' a chortynnau gwddf i ddangos i gyflogwyr ac aelodau'r cyhoedd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

<https://twitter.com/cwcardiffbea3/status/1456234952459227147?s=21&t=iRllpOpOqS66NCX1SQClnw>

Sefyllfa'r Gymraeg 2016-2020

Yn Adroddiad 5 Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg cafodd y cyngor ei gynnwys fel astudiaeth achos mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i ddatblygu rhestr ddiffiniol o enwau lleoedd i'w defnyddio ar lefel genedlaethol. Nid yw'r rhestr wedi'i chytuno'n ffurfiol eto gan y Cyngor, ond bydd yn mynd drwy'r pwyllgorau gofynnol i'w mabwysiadu maes o law. I weld yr astudiaeth achos cliciwch ar y ddolen ganlynol:

[Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20: Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg](#)

Hyrwyddo Cyffredinol

Hyrwyddwyd ac anogwyd siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i danysgrifio i fwletin **Cadwch mewn Cysylltiad** y cyngor, gan dderbyn newyddion y cyngor yn eu dewis iaith.

Ydych chi'n dysgu Cymraeg ac yn chwilio am gyfleoedd i ddarllen testun Cymraeg?

*Tanysgrifiwch i'n gwasanaeth rhybuddio e-bost rhad ac am ddim, **Cadwch mewn Cysylltiad**. Bydd yn eich helpu i ehangu eich geirfa Gymraeg a gwella eich dealltwriaeth o destun Cymraeg trwy ddarllen rhybuddion newyddion yn Gymraeg.*

https://public.govdelivery.com/accounts/UKCAERPHILLY_CY/subscriber/new

Ystadegau'r Gymraeg 2020-2021

Nifer y ceisiadau cyfieithu a dderbyniwyd.....	3,017
Nifer y ceisiadau cyfieithu a anfonwyd yn allanol.....	352
Nifer y geiriau a gyfieithwyd yn fewnol.....	852,844
Nifer y geiriau a gyfieithwyd yn allanol.....	1,376,596
Nifer y cyrsiau Cymraeg a hysbysebwyd / a gynigiwyd.....	69
Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg.....	35
Nifer yr Ymchwiliadau i'r Gymraeg ers 2016.....	13

3. Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd 2019-2020

Tystiolaeth o gydymffurfiaeth a chynnydd:

Gohebiaeth

Derbyniwyd 3 e-bost yn Gymraeg ond dim ond 2 o'r 3 a ymatebwyd yn Gymraeg.
(Safonau 1, 4, 5, 6, 7)

Camau a gymerwyd:

Ar ôl derbyn y trydydd e-bost, fe'i hanfonwyd i ddechrau at y tîm cyfieithu i gyfieithu cais y cwsmer. Yna anfonwyd yr e-bost at yr adran berthnasol. Yn anffodus, nid oedd y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd i anfon yr e-bost ato yn cael ei fonitro, ac felly ni anfonwyd ymateb i'r e-bost. Mae'r mater wedi'i godi gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol i fynd i'r afael â hyn gyda'u timau.

Galwadau Ffôn

Derbyniwyd 3 galwad ffôn. Atebwyd y tri yn ddwyieithog, fodd bynnag nododd yr aelod o staff ar y tair galwad ei fod yn dysgu Cymraeg ac yn gallu trosglwyddo'r galwr i siaradwr Cymraeg. Collwyd y tair galwad wrth eu trosglwyddo.

Camau a gymerwyd:

Mae'r llinell ffôn wedi'i phrofi'n llawn ac mae'r system yn gweithio'n gywir. Pan fydd galwad yn cael ei throsglwyddo mae'r llinell yn dawel, gan nad oes gennym unrhyw gerddoriaeth dal, weithiau mae galwyr yn camgymryd hyn fel un sydd wedi'i ddatgysylltu.

Yn ddiweddar, fe wnaethom gynnal 3 ymarfer recriwtio ar gyfer siaradwyr Cymraeg ychwanegol (a gafodd eu hysbysebu ar safleoedd swyddi Cymraeg hefyd). Yn anffodus, ar y ddau achlysur cyntaf methwyd â phenodi oherwydd diffyg diddordeb. Fodd bynnag, rydym yn falch ein bod wedi gallu penodi siaradwr Cymraeg rhugl ar y drydedd rownd recriwtio.

Gwefan a Chyfyngau Cymdeithasol

- Nid oedd 1 dogfen Cwnsela Ysgol ar gael yn Gymraeg.
- Roedd 2 ddogfen a dwy ffurflen gais ar y wefan, ond nid oedd y datganiad gofynnol arnynt yn nodi eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg.
- Nid oedd 1 ffurflen Treth y Cyngor ar gael yn Gymraeg.
- Roedd 3 allan o 15 tudalen we yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- 10 allan o 10 trydriad ar gael yn Gymraeg, ond roedd 3 yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- 9 allan o 10 neges Facebook ar gael yn Gymraeg a 2 o'r 10 yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Camau a gymerwyd:

- Cyfieithwyd y ddogfen Cwnsela Ysgol a diweddarwyd y dudalen we. Mae'r ddogfen bellach ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Diweddarwyd y dogfennau, ffurflenni cais a thudalennau gwe berthnasol, ac mae'r datganiad gofynnol arnynt yn nodi eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg.
- Cyfieithwyd ffurflen Treth y Cyngor a diweddarwyd y dudalen we.
- Cafodd gwallau ar y 3 tudalen we eu hadnabod, eu cywiro a'u diweddarau.

- Mae'n ymddangos bod y problemau gyda'r 3 thrydariad yn wall copïo a gludo gyda chymhwysedd gwirio llinell wedi'i hepgor. Atgoffwyd y tîm o bwysigrwydd cywirdeb a dylent sicrhau bod y post Cymraeg yn adlewyrchu cynnwys y post Saesneg.
- Roedd y post Facebook cyntaf ar gael yn Saesneg yn unig ac roedd yr ail bost yn cynnwys dolen, a oedd yn mynd â chi at wybodaeth uniaith Saesneg. Camgymeriad dynol oedd yn gyfrifol am y ddau achos, ac mae'r tîm wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd cywirdeb a sicrhau bod y testun ar gael yn y ddwy iaith cyn ei bostio.

Recriwtio

Mae blaengynllun gwaith wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â nifer o faterion brys yn ymwneud â recriwtio, gan gynnwys cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r camau gweithredu gofynnol wedi'u hamserlennu i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.

Sylwadau Cyffredinol

Rydym yn cydnabod ein bod, dros y 2 flynedd ddiwethaf, wedi bod yn canolbwyntio ar ymdrin â'r pandemig ac addasu ein gwasanaethau i'w darparu drwy ddulliau gwahanol. Wrth wneud hynny, mae ein blaenoriaethau wedi newid o reidrwydd a byddai'n rhaid i ni gydnabod efallai nad oedd ein hymdrechion wedi canolbwyntio cymaint ag y byddem wedi dymuno ar sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog ac yn unol â Safonau'r Gymraeg. Hoffem eich sicrhau, wrth inni wella o'r pandemig, fod ein hawydd i gefnogi'r iaith mor gryf ag erioed. Yng ngoleuni'r diffyg cydymffurfio a amlygwyd yn yr archwiliad blynyddol a'r angen i gael gwasanaethau yn ôl i weithredu fel arfer, rydym yn anelu at lansio ymgyrch ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, cydraddoldeb ac ymgynghori ym mis Mawrth.

4. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd

Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg

Rydym yn defnyddio'r adran hon o'r adroddiad i fanylu ar unrhyw Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Am y cyfnod 2021-2022 cawsom 0 ymchwiliad newydd am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Gall aelodau'r cyhoedd weld Gweithdrefn Gwyno'r Cyngor ar gyfer delio â chwynion a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg ar ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.caerffili.gov.uk/Y-Cyngor/Strategaethau,-cynlluniau,-a-pholisïau/cydraddoldeb/Safonau'r-Gymraeg>

Cwynion:

Mae **Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-2024** yn cynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymrwmo'r Cyngor i ddefnyddio ei ddata ceisiadau am wasanaethau a chwynion i:

- **Amcan Cydraddoldeb 1 – Gweithred 5 ac Amcan Cydraddoldeb 4 – Gweithred 5**
Nodi anghenion gwasanaeth grwpiau penodol o ddefnyddwyr; pa rwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau; a pha gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn dileu'r rhwystrau hynny
- **Amcan Cydraddoldeb 1 – Gweithred 8**
Casglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer canmoliaeth a chwynion

Yn ystod 2021-2022, derbyniwyd **1** gŵyn a **6** chais am wasanaeth yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cododd yr **1** gŵyn a dderbyniwyd nifer o faterion:

- Roedd llythyr y Gwasanaethau Etholiadol yn cynnwys dolen we Saesneg yn y fersiwn Gymraeg.
- Ni allai'r swyddog cwynion ymdrin â chwynion yn Gymraeg a'u bod am i'w dewis iaith gael ei gofnodi ar gyfer cwynion yn y dyfodol.
- Ar y dudalen we Cwynion dim ond cyfeiriad e-bost sydd fel cyswllt, dylai fod rhif ffôn a rhif ffôn testun.
- Nid yw Colin the Chatbot yn gweithio.

Camau a gymerwyd:

- Cydnabu'r Gwasanaethau Etholiadol y camgymeriad a byddant yn cywiro pob gohebiaeth yn y dyfodol.
- Mae'r Gwasanaethau Etholiadol wedi penodi aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i ddelio â galwadau ffôn. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, trefnir galwad yn ôl gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg gyda'r galwr.
- Adolygwyd a diweddarwyd y manylion cyswllt ar y dudalen we Cwynion lle bo angen.
- Eglurwyd mai pwrpas y Chatbot i ddechrau oedd ymdrin ag ymholiadau Covid-19. Bydd y Chatbot yn cael ei hyfforddi maes o law i ddelio ag ymholiadau cwynion.

Ceisiadau am Wasanaeth

Roedd y **5** cais am wasanaeth yn cynnwys y canlynol:

Rhif	Manylion y Ceisiadau am Wasanaeth	Datrysiad
CG1	Arwydd ffordd newydd wedi'i godi sy'n torri Safonau'r Gymraeg, y testun Saesneg yn gyntaf.	Arwydd newydd wedi ei godi.
CG2	Arwydd ffordd wedi'i gywiro ond bellach mae camgymeriad teipio ynddo.	Arwydd ffordd wedi'i gywiro.
CG3	Cyfeiriad Saesneg yn ymdangos ar ohebiaeth Gymraeg gan Wasanaethau Etholiadol.	Mae mynediad i'r system LLPG wedi'i ddiweddarau a bydd y cyfeiriad Cymraeg yn cael ei arddangos ar ohebiaeth yn y dyfodol.
CG4	Aelod o'r cyhoedd yn anfodlon bod arwyddion ffyrdd yn ddwyieithog Cymraeg yn gyntaf a'u bod yn derbyn dogfennaeth ddwyieithog.	Eglurwyd gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys arwyddion ffyrdd a dogfennau. Wedi darparu manylion cyswllt Comisiynydd y Gymraeg pe bai'n dymuno mynd â'r mater ymhellach.
CG5	Mae post cyfryngau cymdeithasol a ail-drydarwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch Achos TB posibl mewn ysgol ym mwrdeistref sirol Caerffili, yn cynnwys camgymeriadau teipio yn y testun Cymraeg. Cwestiynwyd hefyd y diffyg gwybodaeth recriwtio yn Gymraeg ar wefan y Cyngor.	Hysbyswyd yr aelod o'r cyhoedd bod y wybodaeth yn perthyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru ond y byddem yn eu hysbysu o'r camgymeriadau. O ran y wybodaeth recriwtio, eglurwyd bod y feddalwedd yn aros i gael ei huwchraddio, a fyddai'n cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg.

Diffiniadau Cyffredinol

Mae cwynion corfforaethol yn gwynion o ganlyniad i fethiant o ran proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai, yn y pen draw, gael eu hanfon at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu at Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft.

Caiff materion cod ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff eu trin drwy gyfrwng prosesau Adnoddau Dynol mewnol. Fodd bynnag, mae cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhywfaint o hybrid, oherwydd gall methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod o staff tuag at grŵp penodol, er enghraifft.

Cwynion a Cheisiadau am Wasanaeth yn ôl Cyfadrn

CYFADRAN	CWYNIION	CEISIADAU AM WASANAETH
Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	1	3
Economi a'r Amgylchedd	0	2
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	0	0
CYFANSWM	1	5

5. Sgiliau Iaith Staff

Mae'r gallu i gofnodi sgiliau iaith Gymraeg yn nhermau data staff a dadansoddi yn rhan annatod o'r system gyflogres o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dangosir ffigyrau diwedd y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2022 isod ac ar y dudalen nesaf. Mae'r lefelau sgiliau wedi'u mesur yn unol â'r canllawiau sgiliau iaith a ddarperir gan Gymdeithas y Profwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE). Ar dudalennau 21-23 o'r adroddiad hwn fe welwch chi fanylion sgiliau iaith staff fesul maes gwasanaeth wedi'u mesur ar raddfa o 5 sef 'Hyfedredd' hyd at 'Dim Sgiliau'.

Lefel 5	Lefel 4	Lefel 3	Lefel 2	Lefel 1	Dim Sgiliau
Hyfedredd	Uwch	Canolradd	Sylfaen	Lefel Mynediad	-

O'i gymharu â'r llynedd, unwaith eto rydyn ni wedi cofnodi cynnydd bach yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob cyfadran ein gweithlu.

Ar adeg adrodd y llynedd, roedd cyfanswm y staff a siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad fel a ganlyn o'i gymharu ag eleni yn y flwyddyn adrodd hon;

Cyfansymiau'r Cyngor 2020-2021

Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
8296	1825	21.99

Cyfansymiau'r Cyngor 2020-2021

Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
8348	1968	23.57

PROFFIL IEITHYDDOL Y GWEITHLU - GALLU YN Y GYMRAEG YN ÔL MAES GWASANAETH A RHUGLDER AR 31 MAWRTH 2022

i) FFIGYRAU STAFF CYFFREDINOL

<i>Economi a'r Amgylchedd</i>	2020-2021			2021-2022		
	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	716	125	17.45	1349	226	16.75
Isadeiledd	227	35	15.41	220	34	15.45
Gwasanaethau Eiddo	63	18	28.57	62	19	30.64
Diogelu'r Cyhoedd	159	34	21.38	155	41	26.45
Adfywio a Chynllunio	332	49	14.75	319	63	19.74
Cyfanswm	1483	261	17.59	2075	376	18.12

<i>Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol</i>	2020-2021			2021-2022		
	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
Gwasanaethau Gwella Busnes	995	150	15.07	29	11	37.93
Cyllid Corfforaethol	156	23	14.74	157	24	15.28
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol	126	24	19.04	133	30	22.55
Cynllunio a Strategaeth Addysg	149	37	24.83	0	0	0
Dysgu, Addysg a Chynhwysiant	462	85	18.39	460	91	19.78
Y Gyfraith a Llywodraethu	60	10	16.66	59	12	20.33
Gwasanaethau i Bobl	100	29	29.00	101	28	27.72
Ysgolion	3311	1004	30.32	3323	1062	31.95
Gwasanaethau Trawsffurfio	0	0	0	717	131	18.27
Cyfanswm	5068	1302	25.69	4761	1333	27.99

<i>Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai</i>	2020-2021			2021-2022		
	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
Gwasanaethau i Oedolion	1104	141	12.30	1077	144	13.37
Gofalu am Gaerffili	0	0	0	17	5	29.41
Cartrefi Caerffili	480	60	13.14	486	60	12.34
Gwasanaethau i Blant	324	83	23.20	332	100	30.12
Tîm Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd	5	1	33.33	4	1	25.00
Cyfanswm	1906	285	14.21	1910	309	16.17

NODIADAU

- Nid yw'r ffigyrau fesul maes gwasanaeth ar gyfer **Cyfanswm y Staff** a **Siaradwyr Cymraeg** yn gyfartal â'r cyfanswm cyffredinol fesul Cyfadran oherwydd bod gan rai aelodau o staff fwy nag un swydd yn y sefydliad a bod y swyddi hynny o fewn meysydd gwasanaeth gwahanol.
- Yn unol ag adroddiadau blaenorol, mae'r ffigurau yn **5i)** uchod yn gyfansymiau nifer y bobl fesul cyfadran sydd wedi cwblhau'r ffurflen Sgiliau Ieithyddol gan nodi sgiliau Iaith Gymraeg.
- Mae'r ffigyrau a ddangosir yn **5ii)** i **5iv)** sy'n dilyn, yn cyfeirio at lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg fesul maes gwasanaeth ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â'r cyfansymiau a ddangosir yn **5i)** oherwydd er enghraifft yn yr isadran Cyllid Corfforaethol (yr ail adran isod yn **5ii)**, mae'r golofn "Lefel 4" yn cyfeirio at aelod staff sy'n gallu darllen, siarad, deall ac ysgrifennu at Lefel 4, ac nid tri aelod staff gwahanol.

ii) Economi a'r Amgylchedd

Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	22	10	9	24	146	13	2
Deall	22	15	11	23	123	28	4
Ysgrifennu	22	6	14	29	73	73	9
Cyfanswm Staff	226						

Isadeiledd	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	1	0	1	2	25	3	2
Deall	0	2	1	2	25	2	2
Ysgrifennu	1	0	1	3	19	5	5
Cyfanswm Staff	34						

Gwasanaethau Eiddo	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	0	0	1	2	25	3	2
Deall	0	2	1	2	25	2	2
Ysgrifennu	0	0	0	3	19	5	5
Cyfanswm Staff	19						

Diogelu'r Cyhoedd	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	3	0	4	6	27	1	0
Deall	5	2	3	5	24	2	0
Ysgrifennu	3	0	3	3	21	10	1
Cyfanswm Staff	41						

Adfywio a Chynllunio	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	9	1	1	13	36	3	0
Deall	9	3	1	9	33	6	2
Ysgrifennu	10	0	1	7	30	12	3
Cyfanswm Staff	63						

iii) GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI

Gwasanaethau i Oedolion	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	12	11	3	9	97	12	0
Deall	14	13	2	5	83	23	4
Ysgrifennu	14	9	1	10	46	58	6
Cyfanswm Staff	144						

Gofalu am Gaerffili	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	0	0	0	0	5	0	0
Deall	0	0	0	0	5	0	0
Ysgrifennu	0	0	0	0	3	2	0
Cyfanswm Staff	5						

Cartrefi Caerffili	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	3	3	6	5	39	4	0
Deall	2	7	2	1	30	15	3
Ysgrifennu	1	4	4	3	15	29	4
Cyfanswm Staff	60						

Gwasanaethau i Blant	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	5	5	6	3	74	6	1
Deall	7	7	3	8	58	15	2
Ysgrifennu	6	5	4	6	42	33	4
Cyfanswm Staff	100						

Tîm Datblygu'r Gweithlu ar y Cyd	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	0	0	0	0	1	0	0
Deall	0	0	0	0	1	0	0
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	1	0
Cyfanswm Staff	1						

iv) **ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

Gwasanaethau Gwella Busnes	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrandu/Siarad	5	0	0	1	5	0	0
Deall	5	0	0	1	5	0	0
Ysgrifennu	5	0	0	1	3	1	1
Cyfanswm Staff	11						

Cyllid Corfforaethol	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrandu/Siarad	0	2	0	3	15	4	0
Deall	0	2	0	2	14	6	0
Ysgrifennu	0	2	0	2	9	11	0
Cyfanswm Staff	24						

Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrandu/Siarad	3	1	1	1	23	1	0
Deall	3	2	1	0	17	3	4
Ysgrifennu	3	1	1	0	12	9	4
Cyfanswm Staff	30						

Dysgu, Addysg a Chynhwysiant	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrandu/Siarad	6	5	0	8	71	1	0
Deall	7	3	3	4	61	11	2
Ysgrifennu	7	1	4	4	47	25	3
Cyfanswm Staff	91						

Y Gyfraith a Llywodraethu	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrandu/Siarad	0	1	0	2	8	0	1
Deall	1	0	1	1	8	1	0
Ysgrifennu	0	1	0	2	7	2	0
Cyfanswm Staff	12						

Gwasanaethau i Bobl	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrandu/Siarad	1	1	1	7	16	2	0
Deall	1	3	1	4	16	3	0
Ysgrifennu	0	2	1	5	11	9	0
Cyfanswm Staff	28						

Ysgolion	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	203	50	38	192	556	19	4
Deall	203	65	79	157	464	63	31
Ysgrifennu	205	36	40	181	340	212	48
Cyfanswm Staff	1062						

Gwasanaethau Trawsffurfio	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	3	5	5	16	91	11	0
Deall	5	6	7	14	73	25	1
Ysgrifennu	5	1	5	10	41	65	4
Cyfanswm Staff	131						

6. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg

Mae CBS Caerffili wedi darparu cyrsiau Cymraeg sgysiol i staff ac aelodau etholedig ers 2001. Mae'r cyrsiau hefyd ar gael i'r cyhoedd ac aelodau o'r staff o sefydliadau partner i'w mynychu. Mae'r cyrsiau yn amrywio o gyrsiau blasu sylfaenol i ddechreuwyr i gyrsiau sy'n darparu ar gyfer y rhai sydd bellach yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Symudodd yr holl gyrsiau i gael eu cynnal ar-lein yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, ac o fis Medi 2020 ymlaen mae pob cwrs bellach yn cael ei redeg ar-lein.

Mae'r data ar gyfer y cyrsiau a gynigir ac a fynychir gan staff CBS Caerffili ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-2022 fel a ganlyn;

CWRS A GYNIWIWYD	NIFER Y CYRSIAU A GYNIWIWYD	NIFER Y STAFF A FYNYCHWYD
30 Wythnos	58	33
Cwrs 10 awr Ar-lein	1	0
Cwrs 120 awr Ar-lein Hunan-astudio	1	1
'Say Something in Welsh' - Cwrs Cymraeg Ar-lein	1	1
Ysgol Haf	1	1
Cyrsiau Preswyl	7	1
Tynnu'n Ôl	D/B	1

Ffigyrau Staff Caerffili – 2016-2022

Blwyddyn Academaidd	Cyrsiau Blwyddyn	Cyrsiau Blasu	Cyfanswm nifer y Dysgwyr	(Niferoedd tynnodd allan o'r cwrs)
2016 – 2017	45	14	59	(3)
2017 – 2018	50	61	111	(4)
2018 – 2019	53	91	144	(6)
2019 – 2020	62	185	223	(0)
2020 – 2021	27	219	246	(2)
2021 – 2022	35	-	35	(1)
CYFANSYMIAU	272	570	818	(16)

Yn ystod 2021-2022 rhoddwyd 2 gyfle i staff fynychu cwrs Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg, ac yn siomedig denodd dim ond 10 o fynychwyr ar draws y ddwy sesiwn. Rhaid darparu'r cwrs hwn i staff yn unol â **Safon 132**;

Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu –

(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);

(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;

(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Gall y cyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith fod yn effeithiol iawn wrth newid agweddau ac archwilio'r pwyntiau canlynol:

1. Pam fod angen rhoi sylw i'r Gymraeg?
2. Beth sydd angen i ni ei wybod am yr iaith a'i siaradwyr?
3. Sut gallwn ni weithredu mewn modd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg?

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan staff a fynychodd y sesiynau ac mae detholiad o'r adborth isod:

- a) Mwynheais i'r sesiwn prynhawn yma gyda Huw yn fawr ond ni allaf gredu'r niferoedd gwael!
- b) Roedd Huw yn addysgiadol ac yn ddifyr, gan ddarparu hiwmor ysgafn a hanes byr yr iaith Gymraeg. Byddwn yn argymhell y cwrs hwn i eraill. Diolch.
- c) Nes i synnu fy hun gyda faint wnes i fwynhau'r cwrs a'r hyder mae wedi rhoi i mi ymarfer yr ychydig o Gymraeg dwi'n gwybod a'r brwdfrydedd i ddysgu mwy. Byddaf yn argymhell y cwrs i eraill.
- ch) Mwynheais y cwrs yn fawr. Roedd yn addysgiadol ac yn ddiddorol ac mae wedi fy ysgogi i barhau i ddysgu Cymraeg. Braff hefyd oedd gwrandao ar brofiadau eraill a chlywed am eu cysylltiad â'r Gymraeg.

Cyflwynwyd hefyd sesiwn ymwybyddiaeth a hwyluswyd gan Fenter Iaith Caerffili i'r Gwasanaeth Ieuencid o'r enw **Yr Iaith Gymraeg mewn Gwaith Ieuencid** ac fe'i mynychwyd gan 8 o bobl.

Yn unol â Safon 128, rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff trwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol:

Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -

- (a) *recriwtio a chyfweld;*
- (b) *rheoli perfformiad;*
- (c) *gweithdrefnau cwyno a disgyblu; .*
- (ch) *ymsefydlu;*
- (d) *delio â'r cyhoedd; ac*
- (dd) *iechyd a diogelwch.*

Unwaith eto, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan staff ynglŷn ag unrhyw un o'r cyrsiau a restrir uchod gael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, felly nid oes unrhyw ffigurau hyfforddi staff wedi'u cofnodi. Cyhoeddir y wybodaeth uchod yma i ddarparu parhad ag adroddiadau blaenorol.

7. Recriwtio i Swyddi Gwag

Cafodd **850** o swyddi newydd a swyddi gwag eu hysbysebu ers 30 Mawrth 2021 eu categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn:

- (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

10

- (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd

24

Mae cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg wedi bod ar gael am ddim i bob aelod o staff ac aelod etholedig ers blwyddyn academiaidd 2001-2002 (gweler **Adran 3**)

- (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol,

810

- (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

6

Mae'r Asesiadau Sgiliau Iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi gwag/swyddi newydd yn cael eu cynnal fel sy'n ofynnol gan Safon 136, ac maent wedi eu cofnodi gan adnoddau dynol ers Hydref 2016. Wedyn, bydd yr asesiad a thystiolaeth ategol yn llunio rhan o'r achos busnes sydd ei angen i gael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu swyddi newydd.

Cwblheir Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd wag neu newydd, sy'n cael eu hysbysebu fel **Cymraeg dymunol** fel gofyniad sylfaenol. Mae'r asesiad a wneir yn penderfynu a ddylid hysbysebu unrhyw swyddi newydd neu wag fel rhai **Cymraeg hanfodol**, yn unol â rôl y swydd a'r cysylltiad â'r cyhoedd.

Diweddariad

Mae cynnydd wedi'i wneud. Mae'r system recriwtio (iTrent) wedi'i diweddaru i wella profiad y defnyddiwr terfynol. Mae'r fersiwn Saesneg diwygiedig yn fyw ond mae wedi bod yn destun newidiadau yn dilyn adborth, sydd wedi arwain at ychydig o oedi yn y broses gyfieithu, sydd bellach yn cael ei symud ymlaen.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol